Cyngor Bro Morgannwg

# Craen hydrolig/ Llwyfan Gwaith Uchel Symudol a Chraen gan gynnwys offer arall ar y briffordd

Telerau ac Amodau

Fersiwn 2 – Ebrill 2026

**Telerau ac Amodau:**

1. Ni cheir gosod unrhyw offer ar y briffordd gyhoeddus heb drwydded awdurdodedig na heb dalu'r ffi gywir. Rhaid cyflwyno'r cais o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dechrau'r gwaith. Bydd angen gwneud cais yn gynharach, ac efallai y bydd angen cyfyngiadau ychwanegol pan fo ffactorau eraill yn effeithio ar y safle arfaethedig, sensitifrwydd traffig, oriau gwaith cyfyngedig, mynediad cyfyngedig i'r safle, ardaloedd i gerddwyr, ardaloedd siopa ayyb.

2. **Rhaid** cadw'r cyhoedd yn ddiogel drwy'r amser

3. Mae'n rhaid i bob cais gael ei wneud gan y Prif Weithredwr. Caiff manylion yr unigolyn hwn eu cadw gan Gyngor Bro Morgannwg a'r unigolyn hwn fydd yn gyfrifol am bob mater sy'n ymwneud â'r 'craen hydrolig a/neu beirianwaith / offer' a'i ddefnydd ar y briffordd fabwysiedig.

4. Mae'n rhaid i Ddeiliad y Drwydded sicrhau y caiff y 'craen hydrolig / peirianwaith / offer' ei ddefnyddio gan bersonél hyfforddedig llawn, cymwysedig ac ardystiedig

5. Deiliad y Drwydded sy'n gyfrifol am unrhyw ddifrod a achosir gan weithredu, gosod a dadosod unrhyw 'graen hydrolig / peirianwaith / offer'. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cadw'r hawl i atgyweirio unrhyw ddifrod i arwynebau ffyrdd/Troedffyrdd, Celfi Stryd, Goleuadau'r Stryd, neu unrhyw eitem/au eraill a gynhelir ac a gedwir gan Gyngor Bro Morgannwg. Bydd unrhyw gostau a dynnwyd gan Gyngor Bro Morgannwg o ganlyniad i ddifrod yn ymwneud â'r 'craen / peirianwaith / offer' yn cael eu cywiro gan Fro Morgannwg a bydd yr holl gostau'n cael eu hail-godi i ddeiliad y drwydded.

6. Bydd deiliad y Drwydded yn nodi y caiff Cyngor Bro Morgannwg, os ystyrir ei fod yn rhesymol gwneud felly, ddod â'r drwydded i ben heb rybudd. Ar yr adegau hyn, mae'n rhaid i'r holl weithredu ddod i ben ac mae'n rhaid datod y 'craen / peirianwaith / offer' a'i symud o'r briffordd ar unwaith.

7. Mae deiliad y Drwydded yn gyfrifol am ddarparu a chynnal a chadw arwyddion, Goleuadau, a gardiau yn unol â Phennod 8.

8. Ni chaiff unrhyw 'graeniau hydrolig / peirianwaith / offer ei roi ar y briffordd fabwysiedig hyd nes i ganiatâd gael ei roi gan Gyngor Bro Morgannwg.

9. Mae'n rhaid i Ddeiliad y Drwydded hysbysu Priffyrdd o unrhyw oedi gweithredol nas rhagwelwyd mewn perthynas â'r cais hwn ac mae'n rhaid iddo wneud cais am aros y tu hwnt i'r dyddiadau hyn a gafodd eu cyflwyno o dan y Drwydded hon.

10. Mae'n rhaid cadw copi o'r drwydded hon ar y safle gyda Gweithredwyr y craen hydrolig / peirianwaith / offer ynghyd â chopïau o ddatganiadau dull a chynlluniau rheoli traffig. Mae deiliad y Drwydded yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl weithredwyr yn hollol ymwybodol o Delerau ac Amodau y rhoddwyd y Drwydded iddynt.

**Cosbau diffyg cydymffurfio**

Os bydd unrhyw ddifrod i'r briffordd, bydd Cyngor Bro Morgannwg yn adennill yr holl gostau am atgyweiriadau gan ddeiliad y Drwydded.

- Os byddwch yn methu â chydymffurfio â'r Telerau ac Amodau a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, byddwch yn agored i gamau gorfodi sy'n cynnwys Hysbysiad Cosb Benodedig **Rhan IX Deddf Priffyrdd 1980 am Rwystro Prifffordd.**
- Is-adran 137A Pŵer i orchymyn i'r troseddwr symud y rhwystr
- Is-adran 171 meddiannu priffordd ac ati (Cyflawni Trosedd o dan yr isadran hon) Cosb Benodedig o **£150.00**.
- Adran 149 Symud pethau sy'n cael eu gadael ar Briffyrdd ac sy'n peri niwsans ac ati. (Pŵer i'w symud ac adennill costau).

**Indemniad Cyfreithiol**

Bydd deiliad y Drwydded yn indemnio Cyngor Bro Morgannwg a/neu ei weision a'i asiantau a'u hindemnio'n barhaol rhag unrhyw atebolrwydd, rhag unrhyw hawliadau, galwadau, gweithredoedd, costau a difrodau sy'n deillio o ganlyniad i osod y cynhwysydd ar y lôn gerbydau, ar droedffordd neu ar lain laswellt. Bydd cyfnod yr indemniad yn dechrau'r un pryd ag y gosodir y cynhwysydd hyd nes y'i symudir yn barhaol. Rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar waith ganddo. Bydd y swm a yswirir gan y polisi yn £5,000,000 ar gyfer unrhyw un digwyddiad gydag yswiriwr cyfrifol. Yn ôl yr angen, bydd y Trwyddedai'n rhoi'r polisi neu'r polisïau yswiriant i'r Awdurdod ynghyd â derbynebau ar gyfer talu am y polisi cyfredol.